

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 6 Mehefin 2011 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig.

Presennol

Cyng. Ll. Price (Cadeirydd)
Cyng. Ann Stokoe (cyrraedd 7.40)
Cyng. Huw Jones
Cyng. Lyn Jones
Cyng. M. Davies (cyrraedd 7.45)

Cyng. Dilwyn Jenkins (Is-Gadeirydd)
Cyng. Islwyn Iago (cyrraedd 8.15)
Cyng. Des Davies
Cyng. Auriol Williams (gadael am 8.30)
Cyng. H. Lewis (Aelod lleol y Cyngor Sir)
Mrs Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i'r Is-Gadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, am fynychu Cyfarfod Blyneddol y Cyngor Sir yn ei lle. Hefyd, llongyfarchodd y Cyng. Auriol Williams ar ddyfod yn famgu eto. Aethpwyd ymlaen wedyn i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**

Tud. 634, Eitem 8h: dylai ddarllen "Goruchwylwraig Cyfrifon y Cyngor"
Tud. 635, Eitem 10: Ychwanegu "Cewch wybod pan fydd y gwasanaeth yn dechrau – bydd y Cyngor Sir yn trefnu hysbysu'r gwasanaeth."
Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod cofnodion mis Mai yn rhai cywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Auriol Williams. Gadawodd y cyfarfod yn gynnar pan fu'r Cyngor yn trafod dogfenni cynllunio yn ymwneud â "Cardigan Sand & Gravel".
- 5. Materion yn codi**

Ilwybr 73/3 Garnhebogydd i'r Clwb Golff: Derbyniodd y clerc alwad ffôn oddi wrth Mrs Wendy Champion (17/5) ynglŷn â gordyfiant ar y llwybr. Dywedodd ei bod yn aros am ganiatâd oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru cyn symud ymlaen i glirio'r llwybr. **Dywedodd y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y llwybr wedi ei drasio erbyn hyn.**

Cyfarfod PACT 10 Mai, Tafarn Gogerddan: Mynychodd y clerc y cyfarfod. Nid oedd materion i'w codi yn uniongyrchol ond cadarnhawyd eu bod yn monitro'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifainc (defnyddio ffonau symudol tra'n gyrru a hefyd y camerâu cyflymder).

Sesiwn hyfforddi ar y Côt Ymddygiad 16 Mai, Neuadd y Dref, Aberteifi: Mynychodd y clerc y sesiwn. Mae ganddi lawlyfr adroddiad yr Ombwdsman er gwybodaeth i aelodau.

Bin sbwriel angen ei wacáu a hen deledu wedi ei adael ar dir Ystafell Berkley: Yn dilyn derbyn e-bost oddi wrth y clerc, dywedodd Mrs Annette Jones y byddai swyddogion y Clwb Ffermwyr Ifainc yn symud y bin oddi ar y cae ac yn gwaredu'r teledu cyn gynted â phosib. **Mae'r bin sbwriel wedi ei symud i ffwrdd a'r teledu wedi ei waredu.**

Pyst Gôl Pêl-droed: Cysylltodd y clerc gyda Mr Morlais Davies ynglŷn â'r pyst oedd yn gorwedd ar glawdd y cae pêl-droed. Dywedodd eu bod yn dal i gael eu defnyddio, ond maent wedi eu symud er mwyn defnyddio'r cae pêl-droed noson cyfarfod y Cyngor. Ychwanegodd Mr Davies hefyd bod y Clwb Pêl-droed wedi derbyn cadarnhad o grant tuag at byst newydd.

Ffermydd y Cyngor Sir: Cyngor Sir yn cadarnhau bod y cytundebau tenantiaeth wedi dod i ben a bod cyfarfod i'w drefnu gyda'r tenantiaid i drafod yr opsiynau (**gweler rhif 10[89]**)
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Gŵyl Fawr Aberteifi (cais am y flwyddyn 2011)
Cronfa Goffa T. Llew Jones

£100 (wedi ei dalu)

Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Cynllunio (wedi ei ddanfon 22/5/11)

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A110145	Frondeg, Ferwig. Dymchwel y garej bresennol a chodi un newydd a swyddfa (2 lawr) at ddefnydd preifat.	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad

Datgan Diddordeb: Cyng. Lyn Jones

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Mehefin 2011.

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A110229	Dros-y-Môr, Gwbert. Ail-osod annedd.	Wedi ei ganiatáu.

8. Cyfarfod Safle. Ni chynhaliwyd cyfarfod safle yn ystod y mis.

9. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu.

E. L. Jones a'i Fab Cyf (llungopiâu, papur, ayyb)	101179	£41.93
Dŵr Cymru (Dŵr Ystafell Berkley)	101180	£52.56
Mr Ken Griffiths (Archwilydd Mewnol y Cyngor)	101181	£75.00

Cynigiwyd bod y biliau uchod yn cael eu talu gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe.

Derbyniadau. Ad-daliad TAW £473.71

Materion ariannol eraill.

Archwiliwyd y llyfrau a'r dogfennau gan Mr Ken Griffiths, Archwilydd Mewnol y Cyngor ar 31 Mai 2011.

Yn dilyn yr archwiliad mewnol cyflwynir Ffurflen Flynyddol (Cynghorau Lleol Cymru) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 gan y clerc. Dosbarthwyd Adrannau 1, 2 a 4 i'r holl gynghorwyr ymlaen llaw.

Adran 1 (Datganiadau Ariannol ar gyfer Cyngor Cymuned y Ferwig):

Yn dilyn ardstiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol, cymeradwyodd y cyngor y datganiadau cyfrifo yn Adran 1.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Huw Jones.

Adran 2 (Datganiad llywodraethu blynyddol):

Mae'r Cyngor hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, ac yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad yn cynrychioli ymatebion terfynol y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies.

PAYE: Mae'r clerc wedi cysylltu gyda swyddogion Cyllid a Thollau EM. Awgrymwyd iddi gofrestru ar-lein.

Mae'r clerc yn y broses o gwblhau'r gwaith sydd angen.

10. Gohebiaeth

89	Cyngor Sir Ceredigion	Tenantiaeth Ffermydd y Cyngor	Gofynnwyd i'r clerc ddanfon llythyr i bwysleisio teimladau'r Cyngor ynglŷn â'r tenantiaid yn cael y cynnig cyntaf i brynu'r ffermydd.
90	Cyngor Sir Ceredigion	Difrod ar heol U5009 ger Fferm yr Hafod	Dywedodd y Cyng. Morris Davies bod y ffordd wedi ei haildario erbyn hyn.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

91	Cyngor Sir Ceredigion	Cynllun Rheoli Traethlin (Cyfarfod yn Neuadd y Dref 7 Mehefin 3-8yh)	Nodwyd
92	Cyngor Tref Aberteifi	E-bost yn gofyn caniatâd i'r Maer wisgo ei chadwyn pan yn ymweld â chymuned y Ferwig.	Gofynnwyd i'r clerc anfon e-bost yn caniatáu'r cais.
93	RAY Ceredigion	Ffurflen Datgan Diddordeb – Gwella Lleoedd Chwarae Cymunedol 2011-14.	Y Cyng. Llinos Price i fynychu'r Gweithdy Tŷ Gwydr dydd Iau 23 Mehefin am fwy o wybodaeth.
94	Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru	Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Ceredigion.	Hysbysiadau wedi eu dosbarthu. Nodwyd.
95	Cyngor Sir Ceredigion	CDLI Ceredigion 2007/22. Ymgynghori ynghylch y sylwadau a gafwyd ynglŷn â Dyriadau'r Safleoedd.	Gweler isod
96	Gŵyl Fawr Aberteifi	Derbynneb am gyfraniad y Cyngor am 2011.	Nodwyd.

CDLI Ceredigion 2007/22

Cafwyd trafodaeth eang yn ymwneud â'r materion yn y cynllun sydd yn berthnasol i Gyngor Cymuned y Ferwig.

- Tir yn Heol Las Fawr (safle newydd a gyflwynwyd ar gyfer tai): Y Cyng. Dilwyn Jenkins yn datgan diddordeb. Penderfynwyd peidio gwneud sylwadau ar hyn o bryd. Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies.
- Rhan o Fferm Penparc (safle newydd a gyflwynwyd ar gyfer cyflogaeth): Y Cyng. Llinos Price yn datgan diddordeb. Am fod rhain yn amhendant penderfynwyd peidio gwneud sylwadau ar hyn o bryd. Cynigiwyd gan y Cyng. Islwyn Iago ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams.
- Parc y Capel (safle newydd a gyflwynwyd ar gyfer tai): Y Cyng. Llinos Price yn datgan diddordeb. Penderfynwyd peidio gwneud sylwadau ar hyn o bryd. Cynigiwyd gan y Cyng. Morris Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Huw Jones.
- Cardigan Sand & Gravel, Penparc: Gadawodd y Cyng. Auriol Williams y cyfarfod.

Awgrymodd y Cyngor fel a ganlyn:

“Mae Cyngor Cymuned y Ferwig yn ailadrodd y pwyntiau blaenorol a nodwyd mewn llythyr dyddiedig 8 Chwefror 2011 (copi yn amgaeedig). Nodir hefyd y pwyntiau canlynol:

Deallwn fod tudalennau 80 a 96 yn delio gyda'r un mater, h.y. awgrymiad bod yr adran fechan a amlygwyd yn cael ei chadw i'w chwarelu.

Mae Cyngor Cymuned y Ferwig yn anghytuno gyda'r safbwynt yma ac yn ei wrthwynebu'n chwynn am fod yr adran yma yn werthfawr gan iddi arbed y tywod a chwythir gan y gwynt rhag difwyno anheddau cyfagos. Gall hefyd warchod y tywod rhag cyrraedd anheddau eraill ym mhentre Penparc yn ystod tywydd garw.”

11. Materion Eraill.

Safon glendid Ystafelloedd Newid Ystafell Berkley: Derbyniwyd cwynion oddi wrth y cyhoedd. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Mrs Karen Jones, yr ofalwraig, yn gofyn iddi gysylltu i drafod ei chytundeb.

Gwyliau'r Clerc (Ionawr/Chwefror 2012) Cais oddi wrth y clerc am bum wythnos o wyliau yn dechrau 20 Ionawr 2012 er mwyn iddi deithio i Seland Newydd.

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y Cyngor yn caniatáu ei chais.

Torri Porfa ym Mhenparc: Cafwyd ymgynghoriad gyda Mr John Morris ynglŷn â'r dryswch am gyfrifoldeb torri porfa croesffordd Brongwyn. Cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw torri y rhan ar waelod Heol y Felin. Hefyd, yn dilyn gwaith wedi gorffen yr ochr arall i'r groesffordd mae problem gyda gwter heb ei offen ac mae angen hau hadau porfa newydd yno. **Y Clerc i anfon llythyr at y Cyngor Sir.**

Asesiad Risg ar y Cyfrifon.

Copi ar gael gan y Clerc.

Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth.

Copi ar gael gan y Clerc.

Strategaeth Buddsoddiadau'r Cyngor.

Copi ar gael gan y Clerc.

Cynllun yr Iaith Gymraeg

Copi ar gael gan y Clerc.

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod yr uchod yn cael eu derbyn.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Llwyddiant pobl ifanc yr ardal: Awgrymwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y Cyngor yn danfon ei longyfarchiadau i'r canlynol:

Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc: Wedi derbyn yr ail wobwr yn Rali Ceredigion gyda nifer o aelodau yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe Frenhinol.

Adran y Pentref: Wedi derbyn y wobwr gyntaf am Grŵp Llefaru ac ail wobwr am Gân Actol yn Eisteddfod yr Urdd.

Ysgol Gymunedol Penyparc: Wedi mynd drwodd i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gyda Grŵp Llefaru Dywedodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, y byddai yn danfon cardiau i'r uchod.

Llwybr Troed o'r Clwb Cychod i Olygfan Gwburt: Gofynnwyd i'r clerc ddanfon ail lythyr ynglŷn â'r tyfiant wrth ochr y llwybr troed, sydd erbyn hyn yn bryder lechyd a Diogelwch.

Llwybr o Felinbedr i Aberdâr: Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Mr John Morris ynglŷn â thrasio'r llwybr yma sydd wedi gor-dyfu. **Y clerc wedi siarad gyda Mr John Morris. Dywedodd y byddai'n gwneud y gwaith ar unwaith.**

Ciosg yn Felinwynt: Dywedodd y Cyng. Islwyn Iago ei fod wedi golchi'r ciosg yn Felinwynt. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd.

Lloches bws y Ferwig: Dywedodd y Cyng. Auriol Williams bod y lloches bws yn dal heb ei glanhau. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu am yr ail dro.

Arwydd "Penyparc" yn Felinwynt: Dywedodd y Cyng. Llinos Price bod angen glanhau'r arwydd. Cynigiodd y Cyng. Islwyn Iago wneud y gwaith hyn.

Cyfarfod y Cyngor ar 5 Medi: Dywedodd y Cyng. Llinos Price ei bod yn methu mynychu'r cyfarfod yma a chytunodd yr Is-Gadeirydd gymryd ei lle am y noson.

Chwaraefan y Ferwig: Awgrymwyd bod y clerc yn cysylltu â Mr Dyfed Symmons ynglŷn â'i amserlen i wneud y gwaith o osod y bin sbwriel mewn concriid.

12. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 4 Gorffennaf 2011 yn Ystafell Berkley, Penyparc, am 7.30yh.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn 2011 ar y dyddiadau canlynol:

5 Medi (F) 3 Hydref (YB) 7 Tachwedd (F) 5 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynnyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 6 June 2011 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

Present:

Cllr Llinos Price (Chairperson)
Cllr A. Stokoe (arr. 7.40)
Cllr Huw Jones
Cllr Lyn Jones
Cllr Morris Davies (arr. 7.45)

Cllr Dilwyn Jenkins (Vice-Chairman)
Cllr I. Iago (arr. 8.15)
Cllr Des Davies
Cllr Auriol Williams (left 8.30)
Cllr. H. Lewis (Local Member of CCC)
Mrs Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the meeting. She thanked the Vice-Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, for attending the Annual General Meeting of Ceredigion County Council in her absence. She also congratulated Cllr Auriol Williams on becoming a grandmother once again. The Council proceeded to discuss the agenda.
- 2. Apologies for absence:** None
- 3. Minutes of the previous meeting.**

Page 634, Item 8h: should read "Overseer of Council's Accounts"
Page 634, Item 8i: should read "Council's Internal Auditor".
Page 635, Item 10: Add "You will be notified when the service commences – the County Council will arrange advertising the service."
With the above corrections it was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Auriol Williams that the minutes for May were correct.
- 4. Declaration of personal interests:** Cllr Auriol Williams. Cllr Williams left the meeting early as the LDP documents appertaining to the "Cardigan Sand & Gravel" were being discussed.
- 5. Matters arising.**

Path 73/3 Garnhegoydd to the Golf Club: The clerk received a telephone call from Mrs Wendy Campion (17/5) regarding the overgrowth on the path. She stated that she was awaiting permission from the Countryside Council for Wales before moving on with clearing the path. **Cllr Dilwyn Jenkins stated that the path had since been cleared.**

PACT Meeting 10 May, Gogerddan Arms: The clerk attended the meeting. They confirmed that they were monitoring the suggestions presented to them by the Young Farmers' Club previously (the use of mobile phones when driving and speed cameras.)

Code of Conduct training session 16 May, Guildhall, Cardigan: The Clerk attended the session. She has a handbook on the Ombudsman's report for Councillors' information.

Rubbish bin to be emptied and an old TV set left outside Ystafell Berkley: Following receipt of e-mail from the clerk, Mrs Annette Jones stated that the Young Farmers' Club would be removing the bin and disposing the television set as soon as possible. **It was noted that these matters had since been dealt with.**

Football Goalposts: The clerk contacted Mr Morlais Davies regarding the goalposts that were lying in the hedge at the football field. He stated that they were being used, but had been moved in order that the field could be used on the night of the Council meeting. Mr Davies also added that the Football Club had received confirmation of a grant towards new goalposts.

Council-owned Farms: Ceredigion County Council confirm that the tenants' agreements were expiring and they were arranging to meet with the tenants to discuss options (**see no. 10 [89]**)
- 6. Requests for financial support.**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Gŵyl Fawr Aberteifi. (application for 2011)
T. Llew Jones Memorial Fund

£100 (paid)

Names in italics = accounts forwarded with applications

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Planning (sent 22/5/11)

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>Comments</i>
A110145	Frondeg, Ferwig. Demolition of existing garage and erection of new garage and office (2 storey) for private use.	Council has no objections.

Declaration of Interest: Cllr Lyn Jones.

County Council's Planning Meeting. Next meeting: 8 June 2011

Applications approved or refused by the County Council.

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>County Council decision</i>
A110229	Dros-y-Môr, Gwbert. Erection of replacement dwelling.	Approved.

8. Site meeting. No site meeting was held during the month.

9. Financial Matters.

Bills paid:

E. L. Jones a'i Fab Cyf (photocopies, paper, etc.)	101179	£41.93
Welsh Water (Ystafell Berkley water)	101180	£52.56
Mr Ken Griffiths (Council Internal Auditor)	101181	£75.00

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Ann Stokoe that the above bills be paid.

Receipts

VAT repayment £473.71

Other financial matters. The accounts were audited by Mr Ken Griffiths, Internal Auditor for the Council, on 31 May 2011.

The clerk presented the Local Councils in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2011. Copies of Sections 1, 2 and 4 had been distributed to all members beforehand.

Section 1 (Accounting Statements for Ferwig Community Council):

Following certification by the Responsible Financial Officer, the council approved the accounting statements in Section 1.

Proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Huw Jones. All members were in agreement.

Section 2 (Annual Governance Statement):

The council to the best of its knowledge and belief and subject to the audit findings, agrees that the responses to each statement of assurance in Section 2 are accurate, complete and represent the council's final responses.

Proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Des Davies. All members were in agreement.

PAYE: The clerk has contacted HMRC. She was advised to register on-line. The clerk is presently in the process of so doing.

10. Correspondence

89	Ceredigion County Council	Tenancy of Council's farms	The clerk was asked to inform the county council of the members' concern stressing that the tenants be offered first refusal to purchase the farms.
90	Ceredigion County Council	The condition of the surface of road U5009 near Hafod Farm.	Cllr Morris Davies mentioned that the road had been resurfaced.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

91	Ceredigion County Council	Shoreline Management Plan (SMP) – Meeting at the Guildhall, Cardigan, 7 June, 3.00-8.00pm.	Noted
92	Cardigan Town Council	E-mail requesting the council's permission for the Mayor to wear her mayoral chain within the community of Ferwig.	Clerk to e-mail with council's consent
93	RAY Ceredigion	Financial support to develop Community Play Areas. Expression of interest form	Cllr Llinos Price to attend the Glasshouse Workshop, 23 June to gather further information.
94	Local Government Boundary Commission for Wales	Review of County Electoral Arrangements for the County of Ceredigion.	Notices distributed.
95	Ceredigion County Council	Local Development Plan – Additional information (Site allocation representations consultation)	See below
96	Gŵyl Fawr Aberteifi	Receipt for council donation 2011.	Noted

LDP Ceredigion 2007/22

A comprehensive discussion took place regarding the appropriate points appertaining to Ferwig Community Council.

- a) Land at Heol Las Fawr (new land earmarked for housing): Cllr Dilwyn Jenkins declared an interest. It was decided not to forward observations at this time.
Proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Des Davies.
- b) Land at Penparc Farm (a new site put forward for employment): Cllr Llinos Price declared an interest. As the plans were unclear, It was decided not to forward observations at this time.
Proposed by Cllr Islwyn Iago and seconded by Cllr Auriol Williams.
- c) Parc y Capel (a new site put forward for housing): Cllr Llinos Price declared an interest. It was decided not to forward observations at this time.
Proposed by Cllr Morris Davies and seconded by Cllr Huw Jones.
- d) Cardigan Sand & Gravel, Penparc: Cllr Auriol Williams left the meeting. The Council offered observations as follows:

“Ferwig Community Council reiterates all the previous points noted in the letter dated 8 February 2011 (a copy of which is attached) and also wish to add the following comments:
Our understanding of pages 80 and 96 is that both pages deal with the same issue, i.e. the recommendation that the small section highlighted be retained for quarrying.
Ferwig Community Council dissent from this viewpoint and object, as that small section is a very valuable asset in that it will prevent wind-blown sand from becoming a polluting agent for nearby properties. It will also assist in preventing wind-blown sand reaching other properties in the village of Penparc during stormy weather conditions.”

11. Other Matters

Standard of hygiene at Ystafell Berkley Changing Rooms: Complaints have been received from the public regarding the hygiene and cleanliness of the changing rooms. The Clerk was asked to write to Mrs Karen Jones, the caretaker, to discuss the job contract.

Clerk's Vacation (January/February 2012): An application was received from the Clerk for leave of absence from 20 January 2012 for five weeks for her journey to New Zealand.

Permission was granted: proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins.

Grasscutting in Penparc: Mr John Morris requested information regarding the grasscutting at the Brongwyn crossroads. It is the County Council's responsibility to maintain the section below Heol y Felin. Following the work carried out on the opposite side of the crossroads, the guttering has not been completed and grass seeds need to be scattered. **The Clerk to inform the County Council.**

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Risk Assessment	Copy available with the Clerk.
Model Publication Scheme	Copy available with the Clerk.
Annual Investment Strategy	Copy available with the Clerk.
Welsh Language Scheme	Copy available with the Clerk.

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Des Davies that the above documents be accepted.

Achievements of local young people: It was suggested by Cllr Dilwyn Jenkins that the council forward their congratulations to the following:

Penyparc YFC: The Club had won the second prize at the County Rally with a number of members qualifying for the Royal Welsh Show.

Adran y Pentref: First prize was won for group recitation and second prize for a musical sketch at the Urdd National Eisteddfod in Swansea.

Penyparc Junior School: The school qualified for the group recitation at the Urdd Eisteddfod.

The Chairperson, Cllr Llinos Price, agreed to forward greeting cards to the above.

Footpath from the Teifi Boat Club to the Gwbert Viewpoint: The Clerk was requested to forward a second letter to the County Council to complain about the overgrowth on the path which now surmounts to being a Health and Safety hazard.

Path from Felinbedr to Aberdare Farm: The Clerk was asked to contact Mr John Morris regarding the trashing of this section. **The Clerk has spoken to Mr Morris who confirmed his intention to complete the work.**

Felinwynt Kiosk: Cllr Islwyn Iago said that he had cleaned the kiosk. He was thanked by the Chairperson.

Ferwig Bus Shelter: Cllr Auriol Williams reported that the shelter had still not been cleaned. The Clerk was asked to request the County Council to do so for the second time.

The 'Penyparc' signpost in Felinwynt: Cllr Llinos Price stated that the sign was in need of cleaning. Cllr Islwyn Iago kindly volunteered to do the work.

Council Meeting 5 September: The Chairperson, Cllr Llinos Price mentioned that she was unable to be at the September meeting of the Council. The Vice-Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, agreed to take the chair for the meeting.

Ferwig Play Area: It was suggested that the Clerk contact Mr Dyfed Symmons to arrange a timetable for the work to secure a litter bin in concrete.

12. Date of next Council Meeting: 4 July 2011 at 7.30pm in Ystafell Berkley, Penyparc.

Council Meetings for 2011 will be held as follows:

5 September (F) 3 October (YB) 7 November (F) 5 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting